

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

28/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

08/03/2023

# Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor

Awduron: Zoe Charlesworth, Policy in Practice; Alex Clegg, Policy in Practice; Adam Knight-Markiegi, M.E.L Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Charlesworth, Z; Clegg, A; Knight-Markiegi, A (2023). *Deall effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 28/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-ffaith-ymyriadau-treth-gyngor-yng-nghymru-dileu-r-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru)

Cydnabyddiaeth

*Hoffai Policy in Practice ddiolch i'r canlynol:*

Yr holl gynghorau yng Nghymru a'r sefydliadau trydydd parti a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn. Ni fyddai'r gwaith ymchwil hwn wedi bod yn bosibl heb y cyfranogiad hwn.

Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a roddodd adborth hynod werthfawr ar wahanol gamau o'r gwaith ymchwil hwn.

Tylor-Maria Johnson, Clemence Leandri a Janet Harkin o Policy in Practice am y gwaith dadansoddi data, hysbysu am bolisïau a phrawfddarllen.

Bla translation (<https://bla-translation.co.uk/>) am eu gwaith ardderchog o ran cyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg.

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	5
2.	Cefndir.....	7
3.	Dull .....	13
4.	Methodoleg .....	14
	Dadansoddiad ystadegol o'r effaith .....	14
	Data Arolygon a Chyfweliadau .....	15
5.	Canfyddiadau: Gweithredu'r mesur o ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor .....	16
6.	Canfyddiadau: Effaith dileu'r gosb o garchar.....	20
	Barn cynghorau ar effaith dileu'r gosb o garchar.....	20
	Tystiolaeth ystadegol ar gyfer effaith dileu'r gosb o garchar.....	21
7.	Crynodeb o'r Canfyddiadau.....	28
8.	Casgliad .....	30
9.	Argymhellion .....	32
10.	Atodiadau .....	33
	Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes.....	33
	Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru - cwestiynau'n ymwneud â dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor.....	34
	Atodiad 3: Grŵp rheoli o gynghorau yn Lloegr sydd â nodweddion tebyg i gynghorau yng Nghymru, ar gyfer cyfradd casglu.....	35

## Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1: Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor, yn ôl Cyngor yng Nghymru, 2017 - 2022.....	17
Ffigwr 2: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor .....	22
Ffigwr 3: Ymateb i gwestiwn arolwg i gynghorau "I ba raddau y newidiodd polisïau gorfodi o ganlyniad i ddileu'r gosb o garchar?".....	23
Ffigwr 4: Cymharu cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn, 2017-2018 hyd 2021-2022 ar gyfer gwahanol wledydd y DU a gyda grŵp rheoli .....	28
Ffigwr 5: Y gydberthynas rhwng amddifadedd cymharol a chyfraddau casglu ar draws bwrdeistrefi Llundain o'r cyhoeddiad Council Tax Collection and Low Income Londoners, Policy in Practice, 2020 .....	31

## Rhestr Tablau

Tabl 1: Gostyngiad canrannol yng nghyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn, 2018-2019 hyd 2021-2022 ar gyfer gwahanol wledydd y DU a grŵp rheoli .....	29
--	----

## Geirfa

Gair allweddol	Diffiniad
Ymadäwr gofal	Daw'r diffiniad cyfreithiol o ymadäwr gofal o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000, sy'n nodi mai ystyr Ymadäwr Gofal yw rhywun sydd wedi bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol am gyfnod o 13 wythnos neu ragor yn ymestyn dros ei ben-blwydd yn 16 mlwydd oed.
Gorchymyn Arwystlo	Gorchymyn llys sy'n gwarantu dyled yn erbyn cartref neu eiddo arall.
Cyfradd gasglu	Canran y Dreth Gyngor a gesglir yn flynyddol, wedi'i chyfrifo fel Treth Gyngor a gasglwyd wedi'i rannu â swm y Dreth Gyngor ar filiau i gwsmeriaid.
Traddodeb	Gorchymyn a ddefnyddir i anfon rhywun i'r carchar.
Y Dreth Gyngor	Treth leol ar eiddo domestig sy'n cael ei gweinyddu a'i chasglu gan awdurdodau lleol ym Mhrydain. Mae'r tâl yn seiliedig ar amcangyfrif o werth yr eiddo. Mae dosbarthiadau o anheddau a phreswylwyr a ddiffinnir wedi'u heithrio rhag y dreth neu'n gymwys am ddisgownt.
Gostyngiad Treth Gyngor	Rhan o'r ystod o gymorth treth gyngor sydd ar gael, sydd hefyd yn cynnwys disgownt ac eithrio. Mae hwn yn fath o gymorth sy'n darparu ar gyfer gostwng y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sydd ag incwm isel. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ar wahân i'r system fudd-daliadau.
Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)	Mesur daearyddol ar gyfer adrodd ar ystadegau ardal fechan yng Nghymru a Lloegr.

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau Treth Gyngor gyda'r amcan o wneud y system Treth Gyngor yn decach, gan gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd. Mae'r ymrwymadau hyn wedi'u nodi yn y Rhaglen Lywodraethu<sup>1</sup> ac yn y Cytundeb Cydweithio<sup>2</sup>. Hefyd ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i ymgynghori ar fesurau, gan gynnwys ailbrizio a diwygio'r sylfaen drethu. Roedd y datganiad yn nodi bod yr "opsiynau sy'n cael eu hystyried y tymor hwn yn cynnwys cynnal proses ailbrizio, adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gwerthuso gostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau – gydag opsiynau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol yn y tymor hwy<sup>3</sup>. ”
- 1.2 Dechreuodd Llywodraeth flaenorol Cymru (2016-2021) y broses o ddiwygio drwy gyflwyno, yn 2019, ymysg camau eraill, pedwar ymyriad allweddol a oedd yn gweithio o fewn y fframwaith Treth Gyngor cyfredol:
- Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor.
  - Cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer dda wrth gasglu'r dreth gyngor<sup>4</sup>. Mae'n god ymarfer gwirfoddol ar gyfer gorfodi ac ar gyfer cynorthwyo rhai sydd â dyled Treth Gyngor. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi cytuno i'w weithredu.
  - Safoni'r broses ymgeisio ar gyfer rhai sydd â 'nam meddyliol difrifol'. Fel rhan o hyn, roedd angen i gynghorau fabwysiadu proses ymgeisio gyffredin a safoni gwybodaeth a ddarperir ynghylch yr eithriad.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf>, 2022)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf>, 2022)

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Cynlluniau i ddiwygio'r Dreth Gyngor, (<https://gov.wales/council-tax-reform-planned>), 7 Rhagfyr 2021

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor, (<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2220>), 2019

- Deddfwriaeth a oedd yn darparu eithriad i ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor tan eu pen-blwydd yn 25 mlwydd oed, gyda'r nod o'u cynorthwyo gyda'r newid i fod yn oedolyn.

1.3 Yn 2022, comisiynwyd Policy in Practice gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil gyda dau amcan allweddol:

- Gwerthuso'r ffordd y mae'r pedwar mesur ymyrryd Treth Gyngor a gyflwynwyd yn 2019 yn cael eu gweithredu a'u darparu yn lleol.
- Gwerthuso effaith y mesurau hyn ar breswylwyr a chynghorau.

1.4 Er hwylustod, darperir y canfyddiadau ar gyfer bob un o'r pedwar ymyriad mewn pedwar adroddiad ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor



## 2. Cefndir

- 2.1 Mae ystod o opsiynau gorfodi ar gael i gynghorau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer casglu ôl-ddyledion Treth Gyngor. Tan yn ddiweddar, roedd hyn yn cynnwys yr opsiwn i wneud cais i'r llys ynadon i roi dedfryd o garchar am hyd at dri mis i ddyledwyr Treth Gyngor. Yng Nghymru, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddileu ers 1 Ebrill 2019<sup>5</sup>. Drwy hyn, mae Llywodraeth Cymru yn gyson â'r Alban a Gogledd Iwerddon lle nad yw'r opsiwn o draddodi i garchar am beidio â thalu trethi lleol yn bodoli.
- 2.2 Cyn iddo gael ei ddileu yng Nghymru, roedd yr opsiwn o draddodi i'r carchar yn fwy na bygythiad i rai nad oeddynt wedi talu'r Dreth Gyngor. Amcangyfrifodd yr elusen gyfreithiol, Appeal, fod bron i 700 o bobl wedi cael eu hanfon i'r carchar yng Nghymru a Lloegr am beidio â thalu'r Dreth Gyngor rhwng 2010 a 2017<sup>6</sup>.
- 2.3 Yn 2016, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i wneud y Dreth Gyngor yn decach a nodwyd hyn yn glir yn y cyhoeddiad Symud Cymru Ymlaen<sup>7</sup>.
- 2.4 Roedd galwadau cynyddol wedi bod i ddileu'r gosb o garcharu dyledwyr Treth Gyngor yng Nghymru a Lloegr ers nifer fawr o flynyddoedd<sup>8</sup> a chynyddodd y galw eto fyth yn dilyn apêl lwyddiannus yn erbyn carcharu am ôl-ddyledion Treth Gyngor yn 2016<sup>9 10</sup>.
- 2.5 Achos Melanie Woolcock oedd yr un uchod. Roedd cyfanswm ei hól-ddyledion Treth Gyngor dros £4,700. Fe gafodd ddedfryd o 81 diwrnod yn y carchar gan Lys Ynadon Pen-y-bont ar Ogwr am fethu â thalu £10 yr wythnos tuag at ei dyled. Cytunwyd ar y trefniant ad-dalu hwn yn flaenorol fel rhan o delerau gwarant

---

<sup>5</sup> Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019 (<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/220/contents/made>, 2019)

<sup>6</sup> Appeal, End Council Tax Imprisonment – Poverty is not a Crime, (<https://appeal.org.uk/council-tax#:~:text=As%20hard%20as%20it%20is,to%20a%20lack%20of%20resources>), 2018

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, (<https://dera.ioe.ac.uk/27564/1/160920-taking-wales-forward-en.pdf>), 2016

<sup>8</sup> BBC News, Council tax: Bid to stop prison threat over non-payment, (<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-44430722>), 11 Mehefin 2018

<sup>9</sup> BBC News, Porthcawl woman jailed unlawfully over council tax, (<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-38672564>), 19 Ionawr 2017

<sup>10</sup> The Guardian, The woman jailed for a £4,742 council tax debt she could not pay, (<https://www.theguardian.com/money/2019/apr/12/woman-jailed-council-tax-bill-she-could-not-pay>), 12 Ebrill 2019

draddodi ohiriedig. Dywedodd Melanie Woolcock nad oedd hi'n gallu talu'r ôl-ddyledion oherwydd ei bod yn rhy wael ei hiechyd i weithio, a'i bod yn ei chael hi'n anodd talu rhent a phrynu bwyd iddi hi ei hun a'i mab oedd yn ei ardegau.

Anfonwyd hi i'r carchar gan Lys Ynadon Pen-y-bont ar Ogwr ar 18 Gorffennaf 2016, a bu yn y carchar am ddeugain diwrnod cyn cael ei rhyddhau. Gwrthdrowyd y ddedfryd hon yn dilyn apêl.

- 2.6 Yng ngwrandawriad yr apêl yn yr Uchel Lys ym mis Ionawr 2018,<sup>11</sup> dywedodd Mr Ustus Lewis: "*Nid oedd sail dystiolaethol y gallai'r llys ynadon ddod i gasgliad arno fod esgeulustod beius wedi digwydd o ran y diffyg talu.*" Dyfarnodd fod y penderfyniad gwreiddiol i draddodi i'r carchar yn anghyfreithlon. Canfuwyd bod Llys Ynadon Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu ag asesu modd ariannol Melanie Woolcock ac nad oedd ganddo sail dros ddod i'r casgliad fod ei methiant i dalu yn ganlyniad i 'esgeulustod beius', sef un o ddwy safon gyfreithiol a nodir yn y rheoliadau. 'Gwrthodiad bwriadol' yw'r llall.
- 2.7 Yn dilyn yr apêl, ym mis Mawrth 2018, anfonodd cadeirydd Cymdeithas y Bar troseddol, Angela Rafferty CF, a 57 o lofnodwyr eraill, lythyr at The Guardian a oedd yn honni bod carcharu pobl yn anghyfreithlon am beidio â thalu'r Dreth Gyngor "*yn debygol o fod yn un o'r camweinyddiadau cyfiawnder torfol mwyaf yn hanes Prydain*". Amcangyfrifodd yr elusen gyfreithiol Appel<sup>12</sup> fod hyn yn golygu bod rhwng 9.5% a 18% o'r bobl a anfonwyd i'r carchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu hanfon yno yn anghyfreithlon.
- 2.8 Ym mis Mehefin 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad fel rhan o'r broses o gyflwyno newid rheoliadol i ddileu'r opsiwn o garcharu am beidio â thalu ôl-ddyledion Treth Gyngor yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad 'Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor'<sup>13</sup>, yn canolbwyntio'n benodol ar y

---

<sup>11</sup> R Melanie Woolcock v The Secretary of State for Communities, (<https://appeal.org.uk/s/Woolcock-v-SSCLG.doc>), 2018

<sup>12</sup> Appeal, End Council Tax Imprisonment – Poverty is not a Crime, (<https://appeal.org.uk/council-tax#:~:text=As%20hard%20as%20it%20is,to%20a%20lack%20of%20resources>), 2018

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor, (<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/180608-dileur-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor.pdf>), 2018

cwestiwn a ddylid dileu gallu cynghorau i geisio traddodeb i garcharu am beidio â thalu'r Dreth Gyngor ai peidio. Roedd yn annog atebwyr i ddarparu sylwadau i gefnogi eu barn. Roedd y ddogfen ymgynghori'n<sup>14</sup> nodi, "*Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y gosb o garchar yn ymateb hen ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil, a bod cost ychwanegol sylweddol i'r pwrs cyhoeddus o anfon unigolion i'r carchar.*"

- 2.9 Roedd y rhan helaeth o'r ymateb i'r ymgynghoriad (84% o'r atebwyr) yn cefnogi'r cynnig i roi diwedd ar garcharu am beidio â thalu ôl-ddyledion Treth Gyngor. Yn ei ymateb, tynnodd Cyngor ar Bopeth Cymru sylw at y niwed y gall carchar ei achosi, a'i effaith ar allu'r person i dalu dyled.

*"Mae Cyngor ar Bopeth yn llwyr gefnogi cynnig y Llywodraeth i wahardd carchariad fel cosb am beidio â thalu treth gyngor. Bydd anfon unigolyn i'r carchar am ddyled treth gyngor yn ei gwneud hi'n anoddach iddo dalu'r ddyled yn ôl yn ogystal â rheoli dyledion eraill, gan ei fod yn effeithio ar y defnydd o gredyd cost uchel, ac yn achosi cleientiaid i fethu taliadau rhent/morgais, yn ogystal â biliau nwy a thrydan... Gall [anfon i'r carchar] fod â goblygiadau niweidiol, gan adael unigolion wedi'u hysgwyd i'r byw gan garchariad neu fygythiad o hynny<sup>15</sup>."*

- 2.10 Darparodd 14 o'r 22 cyngor yng Nghymru ymateb i'r ymgynghoriad, ac roedd 11 o'r rhain yn cytuno mewn egwyddor y dylid dileu'r gosb. Fodd bynnag, mae'r ymatebion yn dangos rhywfaint o bryder ymysg cynghorau; roedd y mwyafrif hefyd yn gwrthwynebu'r syniad o ddileu'r gosb heb roi mesurau eraill ar waith i atal cynnydd mewn achosion o wrthod talu Treth Gyngor yn fwriadol<sup>16</sup>.

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor, (<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/180608-dileur-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor.pdf>), 2018

<sup>15</sup> Cyngor ar Bopeth, Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor, (<https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Dileu%e2%80%99r%20gosb%20o%20garchar%20am%20beidio%20%20c3%a2%20thalu%20treth%20gyngor-%20ymateb%20i%e2%80%99r%20ymgyngghoriad%20%20.pdf>), 2018

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, (<https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2018->

2.11 Ar ôl ymgynghori, mynegodd Mark Drakeford, y Gweinidog Cyllid bryd hynny, ei uchelgais i gyflwyno deddfwriaeth i roi diwedd ar yr opsiwn o draddodi i'r carchar am beidio â thalu Treth Gyngor, gan ddweud fod hynny'n hen ffasiwn ac yn anghymesur. Cyhoeddodd y BBC adroddiad ar yr ymrwymiad hwn i newid ym mis Tachwedd 2018<sup>17</sup> ac amlinellwyd yr ymrwymiad mewn datganiad ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru.

*"Fy marn i yw nad yw mynd i ddyled yn drosedd. Mae cosbi trwy garcharu yn ymateb hen ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil. Mae cost ychwanegol sylweddol i'r pwrs cyhoeddus o anfon unigolion i'r carchar ac nid yw'r fath gamau yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r rhesymau dros y ddyled sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol neu i leihau'r ddyled. Mewn llawer o achosion, mae'n gwaethygu'r sefyllfa. Ni all Llywodraeth Cymru gymryd camau mewn perthynas â gweithrediad y llysoedd, gan nad yw'r cyfrifoldeb dros hyn wedi'i ddatganoli. Ond mae gennym bwerau i ddiwygio'r drefn orfodi bresennol drwy ddileu'r pŵer i anfon pobl i garchar yng Nghymru am beidio â thalu treth gyngor. Mae yna gamau gorfodi eraill, mwy priodol, y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i fynd ar ôl dyledion sifil<sup>18</sup>."*

2.12 Ar 12 Chwefror 2019, cyflwynwyd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019 ('rheoliadau 2019' o hyn allan). Dywedir yn y nodyn esboniadol fod y rheoliad yn "gwneud diwygiadau i Rheoliadau 1992 i ddileu pŵer awdurdodau bilio yng Nghymru i wneud cais i lys ynadon am ddyroddi gwarant i draddodi dyledwr treth gyngor i garchar.". Gwnaethpwyd hyn drwy ddiwygio rheoliadau 47 a 48 Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992. Roedd rheoliadau 2019 hefyd yn cynnwys trefniadau pontio i ymdrin â sefyllfa lle'r oedd proses draddodi wrthi'n mynd rhagddi. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth i beidio â chaniatáu adnewyddu hysbysiadau traddodi ar ôl 1 Ebrill 2019.

---

10/Removal%20of%20the%20Sanction%20of%20Imprisonment%20-%20Consultation%20Summary%20%28English%29.pdf), 2018

<sup>17</sup> BBC News, Council tax: Bid to stop prison threat over non-payment, (<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-44430722>), 11 June 2018

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig - Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor, (<https://gov.wales/written-statement-removal-sanction-imprisonment-non-payment-council-tax>), 2018

- 2.13 Roedd cynghorau yng Nghymru wedi mynegi pryder ynghylch effaith cael gwared ar y bygythiad o garcharu ar gyfraddau casglu<sup>19</sup>. Mae angen i gynghorau gasglu cymaint â phosib o drethi lleol er mwyn ariannu gwasanaethau. Mae tensiwn rhwng hyn a'r amcan cyfochrog o gefnogi preswylwyr incwm isel a bregus.
- 2.14 Gan nodi pryder cynghorau yng Nghymru, cytunodd Llywodraeth Cymru i fonitro effaith y newid rheoliadol hwn ar gasglu Treth Gyngor.

### *Effaith COVID-19*


- 2.15 Oherwydd lledaeniad COVID-19 ledled y DU o aeaf 2019 ymlaen a'r cyfyngiadau economaidd dilynol yn 2020-2021, mae ystyried effaith cyflwyno rheoliadau 2019 ar ei ben ei hun yn broblemus. Mae COVID-19 wedi effeithio ar gyfraddau casglu Treth Gyngor ym mhob un o wledydd y DU bob blwyddyn ers 2019-2020.
- 2.16 Roedd ymchwil a gynhaliodd Policy in Practice ar ran Llywodraeth Cymru ar effaith y pandemig COVID-19 ar Ostyngiadau Treth Gyngor yng Nghymru<sup>20</sup> yn 2021 yn nodi nad oedd effaith y pandemig ar ôl-ddyledion Treth Gyngor yr un fath ledled Cymru a'i bod yn amrywio'n sylweddol o un rhanbarth i'r llall: *"Mae amrywiad nodedig rhwng cynghorau o ran y newid yn y gyfran o aelwydydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng sydd mewn ôl-ddyledion rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021."*
- 2.17 Roedd yr adroddiad yn nodi bod amrywiadau rhwng cynghorau Cymru o ran ôl-ddyledion yn ganlyniad i wahanol effeithiau economaidd y pandemig COVID-19, yn ogystal â gwahanol bolisïau ynghylch casglu Treth Gyngor yn ystod y cyfnod hwn. Mae effaith ranbarthol y pandemig ar lefelau ôl-ddyledion a chyfraddau casglu yn debygol o orlethu unrhyw dystiolaeth ystadegol o newid o ganlyniad i gyflwyno rheoliadau 2019.

---

<sup>19</sup> Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Gofynnodd awdurdodau lleol am fesurau ychwanegol i'w helpu i gynnal eu cyfraddau casglu, (<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dileur-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor>), Tachwedd 2018

<sup>20</sup> Policy in Practice, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r coronafeirws (COVID-19) yng Nghymru, (<https://gov.wales/council-tax-reduction-scheme-and-coronavirus-covid-19-wales>), 2021

## Ffigwr 1: Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor, yn ôl Cyngor yng Nghymru, 2017 - 2022



(Ffynhonnell: StatsCymru, Treth gyngor yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod bilio, Swm a dderbyniwyd fel % o'r debyd cyfan.)

2.18 Mae Ffigwr 1 yn dangos tuedd o ostyngiad cyffredinol mewn cyfraddau casglu ar draws cynghorau Cymru yn 2019-20 a 2020-2021 o ganlyniad i COVID-19, ac yna mae cyfraddau casglu'n cynyddu eto yn 2021-2022. Mae Ffigwr 1 hefyd yn dangos effaith wahaniaethol COVID-19 ar gyfraddau casglu Treth Gyngor ar draws cynghorau Cymru.

2.19 O ystyried effaith COVID-19 ar gyfraddau casglu, mae'r dadansoddi ystadegol yn y gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar:

- Ymchwil a gynhaliwyd cyn y pandemig Covid-19
- Cymhariaeth o'r effaith ar gyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru â rhanbarthau eraill yn y DU a grŵp rheoli o gynghorau cyfatebol o safbwynt economaidd-gymdeithasol yn Lloegr. Effeithiodd COVID-19 ar y grwpiau cymharu hyn hefyd ond nid effeithiodd y mesur i ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor arnynt.

### 3. **Dull**

- 3.1 Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar ymchwil desg, dadansoddi meintiol a gwaith maes, sy'n cynnwys arolwg o swyddogion cyngor a chyfweiliadau gyda sefydliadau trydydd parti.
- 3.2 Mae'r ymchwil desg yn cyfuno canfyddiadau ymchwil sy'n bodoli eisoes a gwaith blaenorol a wnaed gan Policy in Practice ar gyfer Greater London Council (GLA).
- 3.3 Defnyddir gwaith dadansoddi data ac ystadegau i ddeall:
- Tueddiadau mewn cyfraddau casglu er mwyn gwerthuso effaith dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor
  - Cymhariaeth â rhanbarthau eraill yn y DU oedd â pholisïau gwahanol o ran y gosb o garchar
- 3.4 Mae arolygon, cyfweiliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid yn darparu dealltwriaeth o'r broses o weithredu newid ac yn rhoi cyd-destun i'r canfyddiadau.

## 4. Methodoleg

### Dadansoddiad ystadegol o'r effaith

- 4.1 Defnyddiwyd dadansoddiadau ystadegol i ddeall cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru dros amser a'r amrywiadau o ran cyfraddau casglu rhwng cynghorau Cymru.
- 4.2 Cyhoeddir cyfraddau casglu Treth Gyngor gan StatsCymru. Mae hyn yn darparu data ar gyfran y dreth gyngor yn ystod y flwyddyn a gasglwyd yn ôl awdurdod bilio<sup>21</sup>. I ddeall tueddiadau mewn cyfraddau casglu dros amser, defnyddiwyd setiau data o 2017-2018 hyd 2021-2022. I gymharu â rhanbarthau eraill yn y DU a grŵp rheoli, defnyddiwyd setiau data o 2019-2020 hyd 2021-2022.
- 4.3 I addasu'r gymhariaeth ar gyfer gwahaniaeth economaidd-gymdeithasol, aethpwyd ati i gymharu â chynghorau yn Lloegr a gafodd eu grwpio ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol â phob un o'r cynghorau yng Nghymru hefyd. Defnyddiwyd y cyfleuster Cymharu eich Ardal a ddarperir gan Police.uk i bennu grwpiau<sup>22</sup>. Mae'r cyfleuster hwn yn grwpio cynghorau â chynghorau tebyg ar sail nodweddion demograffig, megis oed, grŵp economaidd-gymdeithasol, lefelau diweithdra, teneurwydd poblogaeth, mathau o aelwydydd, a lefel darpariaeth manwerthu a hamdden.

Ar gyfer pob cyngor yng Nghymru, mae Cymharu eich Ardal yn darparu 14 o gynghorau tebyg yng Nghymru a Lloegr. At ddibenion cymharu cyfraddau casglu, dewiswyd tri chynghor yn Lloegr ar hap i'w grwpio gyda phob cyngor yng Nghymru. Nid oedd data cymharu ar gael ar gyfer 6 o'r cynghorau yng Nghymru. Darperir rhestr o'r cynghorau yn Lloegr a ddefnyddiwyd ar gyfer y gymhariaeth hon yn Atodiad 3.

---

<sup>21</sup> Stats Cymru, Treth gyngor yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod bilio (£ mil) (<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Collection/inyearcounciltax-by-billingauthority>)

<sup>22</sup> Police UK, Cymharu eich Ardal, (<https://www.police.uk/pu/your-area/>)



## **Data Arolygon a Chyfweliadau**

- 4.4 Dadansoddwyd data meintiol ac ansoddol cynradd a gasglwyd drwy arolygon ar-lein a chyfweliadau fel sail i'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith.
- 4.5 Cynhaliwyd arolwg gyda chynghorau Cymru i gael gwybod beth oedd dealltwriaeth y cynghorau o'r pedwar ymyriad Treth Gyngor. Roedd cwestiynau penodol yn ymdrin â gweithredu'r mesur o ddileu'r gosb o garchar, a'i effaith. Gwahoddwyd pob cyngor i gymryd rhan a dosbarthwyd yr arolygon yn bennaf i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau. Cafwyd 23 ymateb i'r arolwg gan 14 o gynghorau.
- 4.6 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag asiantaethau trydydd parti i gasglu barn ynghylch gweithredu ymyriadau Treth Gyngor, a'u heffaith. Cynhaliwyd cyfweliad â Cyngor ar Bopeth Cymru mewn perthynas â dileu'r gosb o garchar. Roedd y cyfweliadau'n para oddeutu awr ac roeddynt yn lled-strwythuredig.
- 4.7 Darparodd yr arolwg a'r cyfweliadau giplun disgrifiadol o ymwybyddiaeth, profiad ac effaith o ran dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor.

## 5. **Canfyddiadau: Gweithredu'r mesur o ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor**

### **Cyflwyniad**

- 5.1 Mae effaith cyflwyno rheoliadau 2019 yn absoliwt; rhoddwyd y gorau i draddodi i'r carchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor ar 1 Ebrill 2019 a gweithredwyd hyn ar draws bob cyngor yng Nghymru<sup>23</sup>.
- 5.2 Roedd y gwaith ymchwil hwn yn ceisio deall goblygiadau'r mesur hwn ar weinyddu'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru. Roedd arolwg a gynhaliwyd gyda swyddogion cyngor yn ceisio deall y broses o weithredu a chymhwysu newidiadau o fewn y cyngor.


### *Barn y cyngorau*

- 5.3 Roedd yr arolwg yn ceisio dod i ddeall lefel yr ymwybyddiaeth o'r mesur o ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor. Mae'r atebion i'r arolwg yn dangos bod y lefel ymwybyddiaeth yn uchel, gyda'r mwyafrif o'r atebwyr (83%) yn dweud eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am yr eithriad.

---

<sup>23</sup> Nid oedd yn bosib gwneud ceisiadau newydd i draddodi ar ôl Ebrill 2019. Roedd y rheoliadau'n caniatáu i achosion traddodi a oedd wrthi'n mynd drwy system y llys ynadon i barhau fel y byddent yn flaenorol.


**Ffigwr 2: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor**



(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 23 ymateb)

- 5.4 Dim ond un atebydd i'r arolwg oedd yn teimlo bod angen rhagor o hyfforddiant ynghylch dileu'r gosb o garchar. Mae atebion y cynghorau'n awgrymu bod cynghorau'n hyderus ynghylch eu gwybodaeth am yr ymyriad.
- 5.5 Cyn cyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor, dim ond dau o'r cynghorau a atebodd yr arolwg oedd ddim yn defnyddio'r gosb o garchar. Mae hyn yn awgrymu newid eang mewn polisïau casglu ledled Cymru o ganlyniad i'r mesur.
- 5.6 Gofynnwyd i gynghorau a oedd dileu'r gosb o garchar wedi newid gweithgarwch gorfodi. Dywedodd pedwar cyngor bod y mesur wedi arwain at newid sylweddol o ran polisïau gorfodi. Mae hyn yn hafal i'r nifer a ddywedodd ei fod wedi cael ychydig iawn o effaith neu heb gael effaith o gwbl ar bolisïau gorfodi. Gan mai'r cynghorau sy'n gosod y polisïau gorfodi, mae'n debygol fod hyn yn adlewyrchu'r polisïau a oedd ar waith cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth i ddileu'r gosb o garchar.

**Ffigwr 3: Ymateb i gwestiwn arolwg i gynghorau "I ba raddau y newidiodd polisïau gorfodi o ganlyniad i ddileu'r gosb o garchar?"**



■ Llawer o newid i bolisïau gorfodi ■ Newid cymedrol i bolisïau gorfodi  
 ■ Ychydig o newid i bolisïau gorfodi ■ Dim newid i bolisïau gorfodi

(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 11 ymateb)

5.7 Y prif newid o ran gweithgarwch gorfodi Treth Gyngor a nodwyd gan y rhai a atebodd yr arolwg cynghorau oedd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn ôl at gasglwyr trethi a chynnydd mewn gorchmynion arwystlo, methdaliad ac ansolfedd. Roedd cynghorau o'r farn fod y bygythiad o draddodi i'r carchar, er mai prin iawn y byddai'n digwydd yn flaenorol, yn ddull ymgysylltu defnyddiol nad ydyw ar gael iddynt bellach.

*"[Does] dim mesur ataliol terfynol bellach - os na allwn atafaelu enillion neu fudd-dal - gorchymyn arwystlo yw'r unig opsiwn os ydyn nhw'n berchen ar eiddo. Fodd bynnag, yn achos preswylwyr hunangyflogedig neu denantiaid [mae dyledion yn] anodd iawn eu canlyn."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Does] dim byd yn lle dileu [y gosb]. Mae ymwybyddiaeth o ddileu [y gosb o garchar] wedi cael gwared ar y dull cymell oedd gennym. Mae mwy o achosion ansolfedd yn digwydd, methdaliad, a gorchmynion arwystlo."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"Heb draddodi i'r carchar, mae achosion yn cael eu cyfeirio'n ôl at yr asiantau gorfodi i roi cynnig arall ar adennill y ddyled. Hefyd, mwy o achosion yn cael eu*

*cyfeirio ar gyfer methdaliad a gorchmynion arwystlo, ac yn cael eu dileu pan fo pob opsiwn arall wedi methu."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Mae] llai o opsiynau ar gyfer adennill dyledion hwyr, gan nad oes dull arall/dull yn ei le ar gael. Mae mwy o achosion yn cael eu hailgylchu i asiantau gorfodi."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

- 5.8 Dywedodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg cynghorau fod problemau penodol yn gysylltiedig â phreswylwyr sy'n gwrthod ymgysylltu ac nad oes dulliau casglu ar gael ar eu cyfer. Mae problemau penodol wedi codi o ran adennill dyled Treth Gyngor gan bobl hunangyflogedig sy'n gallu talu ond nad ydynt yn ymgysylltu â'r cyngor i drefnu i ad-dalu. Mae hyn oherwydd nad yw cynghorau'n gallu defnyddio atafaelu enillion fel dull adennill ar gyfer pobl hunangyflogedig. Cyn dileu'r gosb o garchar, roedd achosion traddodi yn creu cyfle i gwrdd â'r dyledwr yn y llys a thrafod trefniadau talu.

*"Y broblem fwyaf yw pobl hunangyflogedig sy'n gallu talu ond yn gwrthod gwneud."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Does] dim mesur ataliol terfynol bellach, felly rydym yn ei chael hi'n anodd casglu'r dreth gan bobl hunangyflogedig."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

### *Barn Cyngor ar Bopeth Cymru*

- 5.9 Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru eu bod wedi cael ychydig o adroddiadau fod y bygythiad o garcharu yn dal yn cael ei ddefnyddio gan gynghorau a'u hasiantau gorfodi. Mae'r gosb wedi'i chynnwys o hyd ar rai llythyrau gan gynghorau ac mae'n parhau i fod ar wefan o leiaf un cyngor. Dywedodd hefyd fod preswylwyr wedi ei hysbysu bod rhai swyddogion gorfodi yn dal i ddefnyddio'r bygythiad o garcharu.

## 6. Canfyddiadau: Effaith dileu'r gosb o garchar

### Barn cynghorau ar effaith dileu'r gosb o garchar

6.1 Er mai prin y byddai cynghorau'n traddodi i'r carchar yn flaenorol, roeddynt yn dweud bod y bygythiad o garcharu yn ffordd ddefnyddiol ac effeithiol o orfodi'r dyledwr i ymgysylltu. Yn ôl rhai ymatebwyr i'r arolwg cynghorau, effaith dileu'r gosb yw bod tagfeydd o ddyledion "segur" yn cael eu creu ac nad oes camau pellach ar gael i ymdrin â nhw. Dywedodd nifer o gynghorau fod hyn yn arwain at ragor o ddileu dyledion ar ôl canlyn pob opsiwn arall.

6.2 Dywedodd un ymatebydd fod dileu'r gosb o garchar wedi arwain at lefel o annhegwch gan nad oes pwerau digonol erbyn hyn i gasglu rhai dyledion.

*"Nid yw hyn yn deg nac yn gyfiawn i rai sydd yn talu eu treth gyngor."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

6.3 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg cynghorau yn ansicr ynghylch effaith dileu'r gosb o garchar ar gyfraddau casglu. Fe wnaeth nifer y sylw fod cyfraddau casglu wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ond nid oeddynt yn gwybod a oedd hyn oherwydd dileu'r gosb o garchar, COVID-19 ynteu'r argyfwng costau byw. Roedd cwpwl o gynghorau o'r farn fod dileu'r gosb heb gael effaith ar gyfraddau casglu mewn unrhyw ffordd:

*"Nid oes effaith wedi bod ar gyfraddau casglu."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"Oherwydd bod traddodi'n cael ei ddefnyddio ar ôl i bopeth arall fethu, roedd nifer y ceisiadau'n fach iawn o gymharu â'r sylfaen drethu gyfan. O ganlyniad, effaith gymharol fach y mae peidio â chasglu'r dyledion hyn wedi ei chael ar gyfraddau casglu."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Rydym wedi gweld] gostyngiad yn y cyfraddau casglu - ond mae'n anodd dweud a yw hyn yn adlewyrchu traddodi gan y byddem wedi cael meincnod ar ddiwedd y flwyddyn ond mae hyn wedi newid oherwydd Covid."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"Mae cyfraddau casglu yn is nag oeddynt yn arfer bod, ond nid wyf yn sicr ai dileu traddodi i'r carchar sy'n gyfan gwbl gyfrifol am hyn."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

- 6.4 Roedd dau o'r ymatebwyr i'r arolwg cynghorau yn teimlo'n gryf fod dileu traddodi i'r carchar wedi effeithio ar gyfraddau casglu.

*"[Mae wedi bod yn] hynod negyddol, cynnydd mewn ôl-ddyledion, trethdalwyr ddim yn cysylltu i drafod ôl-ddyledion. Wedi iddynt ddeall nad oes camau gweithredu yn dilyn asiant casglu, mae llawer o drethdalwyr yn rhoi'r gorau i dalu popeth, gan gynnwys y flwyddyn gyfredol."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

*"[Mae'n] sylweddol - mae ôl-ddyledion yn cynyddu, dros y tair blynedd ddiwethaf mae gwerth ôl-ddyledion wedi dyblu. Nid dileu traddodi yw'r unig reswm a hyn, ond mae hynny, heb os, wedi cael effaith."*

(Ymatebydd i'r arolwg cynghorau)

- 6.5 Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru yn gefnogol iawn o'r cam i ddileu'r gosb o garchar am ôl-ddyledion Treth Gyngor ac yn teimlo y byddai'n cael effaith sylweddol ar bobl sydd â dyledion Treth Gyngor, sydd bellach yn gallu gwneud dewisiadau gwell o ran yr hyn y gallant fforddio ei dalu. Yn flaenorol, oherwydd bod arnynt ofn cael eu traddodi i'r carchar, roedd rhai preswylwyr yn gwneud taliadau nad oeddynt yn gallu eu fforddio, ac roedd hynny'n effeithio ar lesiant. Roeddynt yn dweud bod asiantau gorfodi yn dal i godi ofn ar bobl sydd ag ôl-ddyledion Treth Gyngor ond fod hyn "ychydig yn llai dychrynlyd" na'r bygythiad o draddodi i'r carchar.

### **Tystiolaeth ystadegol ar gyfer effaith dileu'r gosb o garchar**

- 6.6 Mae'n amlwg o'r arolwg cynghorau ei bod hi'n anodd gweld o waith maes beth yw effaith dileu'r gosb o garchar ar gyfraddau casglu Treth Gyngor. Mae gwahanol brofiadau o un cyngor i'r llall yn adlewyrchu'n rhannol yr arferion a oedd ar waith cyn dileu'r gosb. Yn ogystal, nid yw'r effaith ar gyfraddau casglu yn glir o gofio ei bod yn debygol, ers cyflwyno'r mesur, fod COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar gyfraddau casglu Treth Gyngor.

- 6.7 Er mwyn deall effaith newid o ran cosbau gorfodi Treth Gyngor ar gyfraddau casglu, aethpwyd ati i ddadansoddi tueddiadau mewn cyfraddau gorfodaeth yn rhannau eraill y DU yr oedd COVID-19 wedi effeithio arnynt hwythau ond lle nad oedd y gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor wedi'i dileu yn ystod y cyfnod dan sylw.
- 6.8 Mae'r dadansoddiad o'r effaith hefyd yn seiliedig ar ddadansoddiadau ystadegol blaenorol a wnaed gan Policy in Practice a oedd yn edrych ar y berthynas rhwng polisiau gorfodi a chyfraddau casglu yn ystod cyfnod cyn COVID-19.


*Tueddiadau mewn cyfraddau casglu yng Nghymru o'u cymharu â gwledydd eraill yn y DU.*

- 6.9 Bu lleihad o 1% yn y cyfraddau casglu Treth Gyngor ledled Cymru yn y cyfnod o 2018-2019 hyd 2020-2021, a bu ychydig o adferiad erbyn 2021-2022 (cynnydd o 0.6%). Er na ellir dweud yn sicr, mae'n debyg mai'r prif ffactor a ysgogodd y lleihad hwn oedd effaith y tarfu ar fusnes o ganlyniad i COVID-19. Felly, nid yw'r gostyngiad hwn mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor ers dileu'r gosb o garchar yn ddefnyddiol wrth geisio deall effaith yr ymyriad hwn.
- 6.10 Er mwyn deall a yw'n bosib fod dileu'r gosb o garchar wedi effeithio ar y gostyngiad mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru, mae'n ddefnyddiol cymharu cyfraddau casglu Treth Gyngor i'r rhai yn Lloegr ac yn yr Alban yn yr un cyfnod. Bu i COVID-19 darfu ar fusnes mewn ffordd debyg yn y gwledydd hyn.
- 6.11 Nid yw'r gymhariaeth hon yn caniatáu ar gyfer grwpiau rheoli sy'n cyfateb yn llwyr oherwydd bod:
- Hyd y cyfnodau clo COVID-19 a'r tarfu ar fusnes wedi amrywio o un wlad i'r llall
  - Mesurau lliniaru a ddarparwyd gan Lywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig wedi amrywio o un wlad i'r llall
  - Gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol rhwng y gwledydd.
- 6.12 I addasu'r gymhariaeth ar gyfer gwahaniaeth economaidd-gymdeithasol, aethpwyd ati i gymharu â chynghorau yn Lloegr a gafodd eu grwpio ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol â phob un o'r cynghorau yng Nghymru hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y grŵp rheoli hwn yn yr adran Methodoleg.



6.13 Mae cymhariaeth o'r tueddiadau mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor ar draws gwledydd y DU, a gyda grŵp rheoli o gynghorau yn Lloegr a oedd yn cyfateb o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol i'w gweld yn Ffigwr 4.

**Ffigwr 4: Cymharu cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn, 2017-2018 hyd 2021-2022 ar gyfer gwahanol wledydd yn y DU a gyda grŵp rheoli**



(Ffynhonnell: StatsCymru, Treth gyngor yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod bilio, Swm a dderbyniwyd fel % o'r debyd cyfan; Ystadegau Casglu Treth Gyngor Llywodraeth yr Alban, canran y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd; Llywodraeth y DU, Ystadegau Gwladol, Cyfraddau casglu Treth Gyngor ac ardrethi annomestig yn Lloegr).

6.14 Wrth gymharu cyfraddau casglu cynghorau yng Nghymru o 2017–2018 hyd 2021–2022, gwelir bod cyfraddau cyfartalog casglu Treth Gyngor yng Nghymru yn uwch nag oeddynt yn Lloegr ac yn yr Alban, ac o'u cymharu â chynghorau yn Lloegr sy'n debyg o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol.

6.15 Cynghorau Cymru yw'r unig garfan sy'n rhan o'r gymhariaeth a oedd wedi gweithredu'r mesur o ddileu'r gosb o garchar yn 2019. Mae gwerthuso'r gostyngiad mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor rhwng 2018-2019 a 2020-2022, o'u cymharu â'r grwpiau cymharu, yn ein helpu i ddeall a gafodd y mesur o ddileu'r gosb o garchar effaith amlwg ai peidio. Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos bod y gostyngiad canrannol yn y cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru wedi bod yn is nag ydoedd yn y cyfraddau yn Lloegr ac o'i gymharu â chynghorau tebyg yn Lloegr rhwng 2018-2019 a 2021-2022 (Tabl 1).

**Tabl 1: Gostyngiad canrannol yng nghyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn, 2018-2019 hyd 2021-2022 ar gyfer gwahanol wledydd y DU a grŵp rheoli**

<b>Grŵp</b>	<b>Gostyngiad % yng nghyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn, 2018-2019 hyd 2021-2022</b>
Cymru	1.03
Cynghorau yn Lloegr (n47) wedi'u cyfateb â nodweddion cynghorau yng Nghymru	1.23
Lloegr	1.23
Yr Alban	0.31

6.16 Pe byddai dileu'r gosb o garchar wedi cael effaith ar gyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru, byddem wedi disgwyl gweld *mwy* o leihad mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru o'i gymharu â grwpiau tebyg rhwng 2018 a 2022. Nid yw'n ymddangos mai dyna oedd y sefyllfa, gan fod cynghorau Cymru wedi cynnal cyfraddau casglu yn ystod y cyfnod hwn yn well na chynghorau yn Lloegr, ac yn well na chynghorau yn Lloegr a oedd yn cyfateb o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu nad yw dileu'r gosb o garchar yn cael effaith amlwg ar gyfraddau casglu Treth Gyngor.

Mae *mwy* o leihad wedi bod yn y cyfraddau casglu ers 2019 yn Lloegr, lle mae'r gosb o garchar yn parhau, o'i gymharu ag yng Nghymru, lle dilëwyd y gosb yn 2019. Yn yr Alban, lle nad oes cosb o garchar, gwelwyd y lleihad isaf mewn cyfraddau casglu o 2017 hyd 2022.

- 6.17 Mae'n bosib nad yw gwybodaeth pobl ynghylch dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor yng Nghymru yn eang, ac y gellid gweld mwy o effaith yn y blynyddoedd nesaf.

*Effaith polisi casglu Treth Gyngor ar gyfraddau casglu; canfyddiadau ymchwil cyn COVID-19*

- 6.18 Yn 2019, mynegodd bwrdeistrefi Llundain bryderon tebyg ynghylch effaith polisiâu gorfodi ystyriol o gwsmeriaid ar gyfraddau casglu. O ganlyniad, comisiynodd y Greater London Authority (GLA) ymchwil gan Policy in Practice er mwyn deall y ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau casglu. Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn 2020 yn yr adroddiad "Council Tax Debt Collection and Low Income Londoners"<sup>24</sup>.
- 6.19 Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd gan Policy in Practice ar gyfer y Greater London Authority yn edrych ar ddata cyfraddau casglu o'r flwyddyn ariannol 2018-2019. Felly, gall canfyddiadau'r ymchwil fod yn sail ddefnyddiol ar gyfer deall effaith gwahanol bolisiâu gorfodi ar gyfraddau casglu yn annibynnol ar effaith COVID-19 ar y cyfraddau hynny.

Ar gyfer Llundain, mae'r gwahaniaethau mewn polisiâu gorfodi a astudiwyd yn ddaearyddol (amrywiadau rhwng bwrdeistrefi) yn hytrach na dros amser fel a geir yng Nghymru (cyn ac ar ôl cyflwyno rheoliad). Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o effaith polisiâu gorfodi ar gyfraddau casglu yn ddefnyddiol o ran dangos a yw'n debygol y bydd newid mewn cyfraddau casglu o ganlyniad i gyflwyno rheoliad i roi diwedd ar y gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor yng Nghymru.

- 6.20 Gan ddefnyddio dadansoddiad aml-atchweliad,<sup>25</sup> roedd yr ymchwil yn dangos nad oes perthynas rhwng polisi casglu a chyfraddau casglu Treth Gyngor. Defnyddiwyd cydymffurfiad â Phrotocol Cyngor ar Bopeth ar Gasglu Treth Gyngor<sup>26</sup> fel procsi i

---

<sup>24</sup> Policy in Practice, Council Tax Debt Collection and Low Income Londoners, ([https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Council-Tax-debt-collection-and-low-income-Londoners\\_GLA\\_pub.pdf](https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Council-Tax-debt-collection-and-low-income-Londoners_GLA_pub.pdf)), 2020

<sup>25</sup> Gweler Policy in Practice, Council Tax Debt Collection and Low Income Londoners, ([https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Council-Tax-debt-collection-and-low-income-Londoners\\_GLA\\_pub.pdf](https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Council-Tax-debt-collection-and-low-income-Londoners_GLA_pub.pdf)), 2020 am y fethodoleg yn llawn.


<sup>26</sup> Cyngor ar Bopeth, Collection of Council Tax arrears – good practice protocol, 2013

bennu'r math o bolisi casglu. Gosodwyd y rhai a oedd yn gweithredu'r Protocol mewn categori polisïau ystyriol o gwsmeriaid, a gosodwyd y rhai nad oeddynt wedi cytuno i ddilyn y Protocol mewn categori polisïau casglu Treth Gyngor mwy llym.

- 6.21 Dangosodd yr ymchwil mai dau ffactor yn unig oedd â chydberthynas ystadegol arwyddocaol â chyfraddau casglu: uchafswm y Gostyngiad Treth Gyngor a ddyfernid gan y cyngor a'r lefel tlodi lleol. Yn ôl yr adroddiad, roedd awdurdodau lleol a oedd â lefelau uwch o amddifadedd cymharol yn tueddu i gofnodi cyfraddau casglu Treth Gyngor is. Roedd awdurdodau lleol a oedd â lefelau uwch o ddyfarniadau uchafswm Gostyngiad Treth Gyngor yn tueddu i gofnodi cyfraddau casglu Treth Gyngor uwch. Gyda'i gilydd, roedd y ddau ragfynegydd hyn yn cyfrif am 73% o'r amrywiant mewn cyfraddau casglu. Nid oedd lefel Treth Gyngor na chydymffurfiad â phrotocol Cyngor ar Bopeth ar Dreth Gyngor yn gwella'n sylweddol y maint o amrywiant yn y cyfraddau casglu yr oedd y model yn rhoi cyfrif amdano.

Dangosir y gydberthynas rhwng amddifadedd cymharol a chyfraddau casglu bwrdeistrefi Llundain, a gymerwyd o'r cyhoeddiad *Council Tax Collection and Low Income Londoners*, yn Ffigwr 5.

**Ffigwr 5: Y gydberthynas rhwng amddifadedd cymharol a chyfraddau casglu ar draws bwrdeistrefi Llundain o'r cyhoeddiad Council Tax Collection and Low Income Londoners, Policy in Practice, 2020**



- 6.22 Ni fyddai disgwyl i ganfyddiadau o waith dadansoddi a wnaed gan ddefnyddio data o fwrdeistrefi Llundain allu cael eu hallosod yn berffaith ar gyfer cynghorau Cymru. Yn enwedig gan fod y lefel uchaf o Ostyngiad Treth Gyngor yn Lloegr yn cael ei

gosod gan bob cyngor ar wahân ac yn amrywio'n sylweddol ledled Llundain, gydag atebolrwydd yn amrywio o 100% i 60%. Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n gosod uchafswm y Gostyngiad Treth Gyngor y gellir ei ddyfarnu ac mae pob cyngor yng Nghymru yn darparu cymorth Gostyngiad Treth Gyngor o hyd at 100% o'r Dreth Gyngor sy'n daladwy. Fodd bynnag, o ystyried y gydberthynas gref rhwng lefelau tlodi a chyfraddau casglu a welir yn y gwaith ymchwil a wnaed gan Policy in Practice ar gyfer y Greater London Assembly (GLA), byddem yn disgwyl gweld rhywfaint o gydberthynas rhwng lefel tlodi a chyfraddau casglu yng Nghymru hefyd.

- 6.23 Nid yw'n bosib cynnal yr un ymchwil ar gyfer Cymru, oherwydd effaith COVID-19 ac oherwydd bod amddifadedd yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn hytrach na fesul cyngor.

## 7. Crynodeb o'r Canfyddiadau

7.1 Mae COVID-19 wedi cael effaith amlwg ar gyfraddau casglu Treth Gyngor. Dechreuodd COVID-19 effeithio ar gyfraddau casglu ledled Cymru yn 2019-2020, a dechreuwyd gweld gwelliant mewn cyfraddau casglu o 2021-2022 ymlaen. Yn dilyn COVID-19, mae'n debygol fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar gyfraddau casglu Treth Gyngor. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio tueddiadau o ran cyfraddau casglu yn unig fel tystiolaeth o effaith dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor.

### *Y prif ganfyddiadau o ran gweithredu'r mesur o ddileu'r gosb o garchar*

7.2 Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth o fewn cynghorau fod y gosb o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor wedi'i dileu.

7.3 Mae lefel y newid mewn gweithgarwch gorfodi a weithredwyd o ganlyniad i'r mesur yn amrywio o un cyngor i'r llall. Y prif newidiadau a nodwyd gan gynghorau oedd cynnydd yn y defnydd a wneir o orchmynion arwystlo, rhagor o atgyfeirio yn ôl at gasglwyr trethi a chynnydd mewn achosion o ddileu dyled Treth Gyngor.

7.4 Roedd yn destun pryder i Cyngor ar Bopeth Cymru fod rhai cynghorau yng Nghymru yn dal heb ddiweddarau eu deunydd cyfathrebu ers dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor. Roedd y gosb o garchar yn dal wedi'i chynnwys ar wefan o leiaf un cyngor, ac mewn llythyrau a ddefnyddir gan rai cynghorau. Roedd cynghorwyr o Cyngor ar Bopeth wedi nodi cwpwl o achosion o swyddogion gorfodi yn dal i gyfeirio at y gosb o garchar wrth ymgymryd â gweithgarwch casglu.

### *Y prif ganfyddiadau o ran effaith dileu'r gosb o garchar*

7.5 Wrth gymharu cyfraddau casglu cynghorau yng Nghymru o 2017–2018 tan 2021–2022 gyda grwpiau rheoli, gwelir bod cyfraddau cyfartalog casglu Treth Gyngor yng Nghymru yn uwch nag oeddynt yn Lloegr ac yn yr Alban, ac o'u cymharu â chynghorau tebyg yn Lloegr. Cynghorau Cymru oedd yr unig grŵp a weithredodd y mesur o ddileu'r gosb o garchar o fewn amserlen y broses gymharu.

7.6 O edrych ar y gostyngiad mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor ledled Cymru rhwng 2018-2019 a 2020-2022, o'i gymharu â'r grwpiau cymharu, gwelir bod y

gostyngiad canrannol yn y cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru wedi bod yn is nag ydoedd yn y cyfraddau yn Lloegr neu mewn grŵp rheoli o gynghorau yn Lloegr a oedd yn cyfateb o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol. Llwyddodd cynghorau Cymru i gynnal cyfraddau casglu Treth Gyngor ers 2019 yn well na chynghorau yn Lloegr a'r grŵp rheoli o gynghorau tebyg yn Lloegr.

- 7.7 Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Policy in Practice cyn COVID-19 mai dau ffactor yn unig oedd â chydberthynas ystadegol arwyddocaol â chyfraddau casglu: uchafswm y Gostyngiad Treth Gyngor a ddyfernid gan y cyngor a'r lefel tlodi lleol. Nid oedd polisi casglu Treth Gyngor yn cael effaith fesuradwy ar gyfraddau casglu Treth Gyngor.
- 7.8 Mae dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor wedi arwain at heriau i gynghorau o ran ymgysylltu â grwpiau penodol o bobl nad ydynt yn talu, yn enwedig rhai nad yw dulliau casglu eraill, megis gorchymyn atafaelu enillion neu orchymyn arwystlo, yn briodol iddynt.
- 7.9 Rhoddodd y cynghorau a oedd yn rhan o'r arolwg ar gyfer yr ymchwil asesiadau amrywiol o effaith dileu'r gosb o garchar ar gyfraddau casglu Treth Gyngor. Roedd nifer y cynghorau a oedd o'r farn ei fod wedi cael effaith yn hafal i nifer y cynghorau a oedd o'r farn nad oedd wedi cael effaith. Dywedodd y mwyafrif o gynghorau Cymru ei bod yn amhosib gwahanu unrhyw effaith oddi wrth ffactorau eraill a oedd wedi ysgogi newid mewn cyfraddau casglu Treth Gyngor, megis COVID-19 a chynnydd mewn tlodi o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.
- 7.10 Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru o'r farn fod effaith dileu'r gosb o garchar yn gadarnhaol iawn. Mae'n rhoi cyfle i ddyledwyr dalu ar gyfradd y gallant ei fforddio. Cyn dileu'r gosb, roedd tystiolaeth fod rhai dyledwyr mor bryderus ynghylch y defnydd o'r gosb o garchar nes eu bod yn ad-dalu'r ddyled ar lefel a oedd yn achosi niwed iddynt eu hunain.

## 8. Casgliad

- 8.1 Mae'r gwaith dadansoddi ystadegol a wnaed ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, ynghyd â chanfyddiadau gwaith ymchwil blaenorol a wnaed gan Policy in Practice, yn awgrymu nad yw dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor wedi effeithio ar gyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru. Ers 2019, mae cyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru wedi cael eu cynnal yn well nag y maent mewn ardaloedd eraill yn y DU, ac o'u cymharu â grŵp rheoli o gynghorau yn Lloegr a oedd yn cyfateb o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol. Effeithiodd COVID-19 ar bob un o'r grwpiau cymharu hefyd.

Mae'n werth nodi y bu gwahaniaethau rhanbarthol mawr o ran effaith COVID-19, a gwahanol ymatebion gan lywodraethau ym mhob rhan o'r DU, felly mae effaith y pandemig ar gyfraddau casglu Treth Gyngor yn debygol o amrywio i ryw raddau rhwng gwledydd a rhanbarthau. O gofio'r cafeat hwn, mae'r dystiolaeth ystadegol sydd ar gael yn awgrymu nad yw dileu'r gosb o garchar wedi cael effaith fesuradwy ar gyfraddau casglu Treth Gyngor yng Nghymru.

- 8.2 Er nad yw'n ymddangos fod dileu'r gosb o garchar wedi cael effaith fesuradwy ar gyfraddau casglu Treth Gyngor, mae pryder yn parhau ynghylch yr effaith ar gyfraddau casglu Treth Gyngor mewn lleiafrif o gynghorau yng Nghymru. Mae'n bosib fod hyn oherwydd bod gweithgarwch gorfodi yn cael ei ganolbwyntio ar nifer fach o ddyledwyr y mae wedi mynd yn anos ymgysylltu â nhw o ganlyniad i ddileu'r gosb o garchar. Dywedodd bron bob cyngor fod y mesur wedi gwneud ymgysylltu â grwpiau penodol o bobl nad ydynt yn talu yn fwy heriol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i adennill gan breswylwyr lle nad oes modd defnyddio'r mesurau casglu sy'n bodoli. Fodd bynnag, mae'n debygol fod cyfanswm dyled y bobl hyn nad ydynt yn talu yn fach o'i gymharu â chyfanswm y Dreth Gyngor a gesglir ac, felly, ychydig iawn o effaith y mae'n ei chael ar gyfraddau casglu Treth Gyngor.

- 8.3 Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod dileu'r gosb o garchar wedi cael effaith ar weithgarwch gorfodi cynghorau, gyda mwy o ddefnydd o orchmynion arwystlo, atgyfeirio at asiantaethau dyled a dileu dyledion.



- 8.4 Mae tystiolaeth gan Cyngor ar Bopeth Cymru yn dangos bod dileu'r gosb o garchar yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr sy'n ei chael hi'n anodd talu eu Treth Gyngor, gan ei fod yn caniatáu iddynt dalu'r hyn sy'n fforddiadwy heb achosi niwed iddynt eu hunain neu eu teuluoedd.
- 8.5 Mae'n destun pryder fod lleiafrif bychan o ddeunydd cyfathrebu gan gynghorau yn dal i gyfeirio at y gosb o garchar a bod lleiafrif o swyddogion gorfodi yn dal i ddefnyddio'r bygythiad o garchar. O ystyried ymwybyddiaeth cynghorau o'r mesur, a'r gefnogaeth gyffredinol gan gynghorau i'r mesur o ddileu'r gosb o garchar, mae'n debygol fod hyn o ganlyniad i ddiffyg diweddarau o ran hyfforddiant, gwefannau a dulliau cyfathrebu eraill.

## 9. **Argymhellion**

- 9.1 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau Cymru i bennu'r carfannau y mae casglu dyled ganddynt wedi mynd yn fwy heriol o ganlyniad i ddileu'r gosb o garchar. Mae'n bosib y byddai amlygu'r carfannau mwy problemus o gymorth er mwyn cyflwyno mesurau i gynorthwyo cynghorau. Er enghraifft, pwerau casglu ychwanegol, rhannu arferion da o ran casglu gan y grwpiau hyn a chanllawiau safonol ynghylch llwybrau casglu.
- 9.2 Dylai cynghorau Cymru adolygu eu holl sianeli cyfathrebu i sicrhau bod pob cyfeiriad at y gosb o garchar wedi'i ddileu. Efallai y bydd angen i gynghorau sicrhau bod hyfforddiant ynghylch dileu'r gosb o garchar yn cael ei ymestyn i'r holl staff ac i asiantau gorfodi allanol.
- 9.3 Mae effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw yn cymhlethu'r dasg o werthuso effaith dileu'r gosb o garchar ar gyfraddau casglu. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal gwerthusiad pellach ymhellach i ffwrdd o effaith COVID-19 a phan fydd lefelau tlodi yn debycach i lefelau cyn 2019.

## 10. **Atodiadau**

### **Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes**

Defnyddiodd M·E·L Research arolwg ar-lein gyda chynghorau yng Nghymru gan ddefnyddio Forsta Plus i gasglu barn. Cysylltwyd â chyfranogwyr fel aelod o Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru neu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel aelod o staff sy'n ymwneud â chasglu treth gyngor neu gefnogi preswylwyr bregus. Gwahoddwyd pobl o'r ddau lwybr hyn i gymryd rhan drwy e-bost, gyda dolen at yr arolwg ar-lein. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol a'r atebion yn ddiennw. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst a mis Medi 2022.

Cynhaliwyd cyfweiliadau trydydd parti gan M·E·L Research gyda detholiad o sefydliadau sy'n ymwneud ag un neu ragor o bedwar ymyriad treth gyngor. Dewiswyd cyfranogwyr posib gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddus (e.e. gwefannau sefydliadol, LinkedIn) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweiliad ar-lein. Cyfweiliadau lled-strwythuredig oedd y rhain a fe'u cynhaliwyd o bell (drwy Teams). Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng mis Awst a mis Hydref 2022.

#### *Y cynghorau a gymerodd ran*

Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Wrecsam.

#### *Swyddi'r swyddogion cyngor a ymatebodd*

Swyddog Adennill, Arweinydd Corfforaethol Trethu a Dyled, Rheolwr Treth Gyngor, Rheolwr Gorfodaeth, Pennaeth Refeniw, Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Gwasanaeth (Refeniw a Budd-daliadau), Rheolwr Incwm a Dyfarniadau, Rheolwr Casglu Incwm, Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw, Rheolwr Refeniw, Uwch-arweinydd Tîm Treth Gyngor, Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth Refeniw, Rheolwr Treth.

## **Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru - cwestiynau'n ymwneud â dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu Treth Gyngor**

### **Eich cefndir**

1. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?
2. Beth yw teitl eich swydd?

### **Dealltwriaeth o'r ymyriadau**

3. Faint fydddech chi'n dweud eich bod yn ei wybod am y ddeddfwriaeth i ddileu'r gosb o draddodi am ôl-ddyledion treth gyngor?
- 3a. Ydych chi'n teimlo bod arnoch angen hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol ynghylch deddfwriaeth i ddileu'r gosb o draddodi am ôl-ddyledion treth gyngor?  
(Ydw/Nac ydw)

### **Cwestiynau ynghylch cael gwared â thraddodi**

4. Oeddech chi'n defnyddio traddodi fel dull gorfodi yn y flwyddyn cyn cael gwared â thraddodi? (Oeddem/Nac oeddem)
5. A yw cael gwared â thraddodi wedi newid y ffordd rydych yn defnyddio dulliau gorfodi eraill?
6. I ba raddau y bydddech chi'n dweud bod cael gwared â thraddodi wedi newid y ffordd y mae eich awdurdod lleol yn casglu ac yn gorfodi'r dreth gyngor? (I raddau helaeth, I ryw raddau, Ychydig, Dim o gwbl, Ddim yn gwybod)
7. Pam ydych chi'n dweud hyn?
8. Pa effaith, os o gwbl, mae cael gwared â thraddodi wedi'i chael ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor?
9. Pa effaith, os o gwbl, mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar yr ymyriad hwn?

**Atodiad 3: Grŵp rheoli o gynghorau yn Lloegr sydd â nodweddion tebyg i gynghorau yng Nghymru, ar gyfer cyfradd casglu**

Allandale	Gateshead
Amber Valley	Great Yarmouth
Ashfield	Halton
Burnley	Hartlepool
Barrow in Furness	Swydd Henffordd
Bassetlaw	Hyndburn
Bedford	Ipswich
Blackburn with Darwin	Kettering
Bolsover	Knowsley
Braintree	Newark and Sherwood
Breckland	Gogledd Dyfnaint
Bryste	Gogledd Swydd Lincoln
Calderdale	Northumberland
Copeland	Pendle
Corby	Peterborough
Swydd Dyrham	Redcar
Darlington	Rochdale
Doncaster	Sheffield
Dofr	Stoke on Trent
Dwyrain Lindsey	Sunderland
Dwyrain Riding	Swale
Fenland	Tendring
Folkestone and Hythe	Wyre
Forest of Dean	